**LC1224**

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU        LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**The National Health Service (General Dental Services Contracts) (Wales) Regulations 2006**

Mae'r Rheoliadau yma'n nodi'r fframwaith ar gyfer Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol (GDS) ac yn rhagnodi'r amodau y mae'n rhaid i gontractiwr eu bodloni cyn bod Bwrdd Iechyd Lleol yn cael gwneud contract GDS gyda'r contractiwr. Mae'r Rheoliadau hefyd yn nodi'r weithdrefn ar gyfer datrys anghydfodau cyn i gontract gael ei wneud a'r telerau y mae'n rhaid eu nodi mewn Contract GDS ac yn disgrifio'r gwasanaethau y mae'n rhaid iddyn nhw gael eu darparu o dan gontract GDS.

**Rheol Sefydlog 11.7**
Cafodd y Cynghorwyr Cyfreithiol gyfle i graffu ar ddrafft cynharach o'r Rheoliadau ac mae pwyntiau a allai fod wedi bod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7(v) wedi'u cymryd i ystyriaeth yn y drafft cyfredol. Oherwydd hynny, does dim pwyntiau wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7(v).

Er hynny, gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau yma o dan Reol Sefydlog 11.7(viii). Mae'r Rheoliadau'n rhan o gyfres o offerynnau statudol sy'n sail i'r gyfundrefn newydd ar gyfer gwasanaethau deintyddol sylfaenol. Aeth y trafodaethau gyda'r Byrddau Iechyd Lleol a'r proffesiwn deintyddol ymlaen yn hirach na'r disgwyl. Gan fod rhaid i'r diwygiadau gael eu rhoi ar waith yng Nghymru a Lloegr o 1 Ebrill 2006 ymlaen, a chan fod angen cyfle i weld y ddeddfwriaeth er mwyn galluogi deintyddion a'r Byrddau Iechyd Lleol i wneud eu contractau a'u cytundebau newydd yn barod i'w rhoi ar waith ar 1 Ebrill 2006, mae'r Gweinidog wedi cytuno bod y ddeddfwriaeth yn cael ei gwneud yn uniaith Saesneg.

**Sylwadau**
Dim.

**David Melding AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**14 Chwefror 2006**